



Addoldai Cymru

**Noddwyr : Patrons**
Huw Edwards
Yr Athro : Professor Anthony Jones CBE

28/07/2020

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Ymchwiliad i Covid-19 a'i effaith ar y sector diwylliannol yng Nghymru

Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru | Welsh Religious Buildings Trust

Elusen yw Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru a sefydlwyd i dderbyn i'w pherchnogaeth ddetholiad o gapeli dianghenraid sydd o arwyddocâd hanesyddol neu bensaernïol arbennig yn hanes codi capeli ac Anghydffurfiaeth yng Nghymru.
Hyd yn hyn, rydym yn berchen ar wyth o gapeli dianghenraid ledled Cymru o enwadau amrywiol, ac rydym yn y broses o gaffael dau adeilad arall. Rydym yn parhau i weithio i sicrhau'r cyllid sydd ei angen arnom ar gyfer adfer a datblygu pob un o'r adeiladau hyn, gan ddod o hyd i ffyrdd newydd o'u defnyddio lle mae hynny'n bosib, a'u dychwelyd at galon ddiwylliannol eu cymunedau.
Fe'n rheolir gan ddau aelod o staff rhan amser ac ymddiriedolwyr, ac mae'n gweledigaeth yn dibynnu'n helaeth ar ewyllys da cymunedau lleol, gwirfoddolwyr a chyrff sydd â diddordeb yn ein gwaith. Ein nod yw adrodd hanes capeli Cymru o'u dechreuadau di-nod i'w sefyllfa bresennol lle cânt eu disgrifio fel "pensaernïaeth genedlaethol Cymru", a chreu etifeddiaeth bwysig er budd y cenedlaethau a ddaw.
Rydym yn cael derbyn capeli i'n perchnogaeth gan ein bod yn elusen ragnodedig dan Ddeddf Eglwysi ac Addoldai Eraill Gwag 1962, ac mae gennym gyfrifoldeb i'w gwarchod am byth - er bod deg adeilad yn ganran fechan iawn o'r cyfanswm o'r c.6,500 o gapeli Anghydffurfiol a gafodd eu hadeiladu yng Nghymru. Rydym wedi clustnodi dros 160 o gapeli o bwysigrwydd pensaernïol neu hanesyddol, sydd yn haeddu cael eu diogelu er budd y genedl.
Mae capeli 'byw' yn fwy nag adeiladau crefyddol, gan eu bod yn aml iawn yn galon ddiwylliannol, cymunedol ac ysbrydol eu cymunedau. Nid oes amheuaeth eu bod wedi cael ergyd drom yn ystod yr argyfwng hwn. Mae'r enwadau Anghydffurfiol yn dibynnu'n helaeth ar adnoddau ariannol capeli unigol – adnoddau sydd bellach yn edwino. Bydd y problemau cynhenid o roi gweinidogion ar ffyrlo, a phrofi gostyngiad sylweddol mewn incwm gan ddefnyddwyr cymunedol, ynghyd â'r tebygolrwydd na fydd rhai o'r aelodau hŷn byth yn dychwelyd at addoli mewn gwasanaethau rheolaidd, yn cael effaith andwyol ar nifer o gapeli, a bydd eu cau'n anochel – a bydd hyn yn arwain at golli nifer o gapeli arwyddocaol ledled Cymru.
Effaith COVID-19 ar yr Ymddiriedolaeth
Mae'r ddau aelod staff wedi llwyddo i weithio gartref, ond gydag adnoddau'n brin, nid ydym wedi llwyddo i ddarparu unrhyw bresenoldeb ar-lein sylweddol. Mae wedi bod yn anodd i ni gyflawni prosiectau 'byw', ond hyd yn hyn, mae cyllidwyr wedi bod yn hyblyg eu hymateb tuag at ddyddiadau cau a thelerau ceisiadau, ac rydym yn gobeithio'n fawr y bydd hyn yn parhau.
Yn anffodus, nid ydym wedi llwyddo i fodloni meini prawf ar gyfer dulliau cyllido Llywodraeth Cymru ar gyfer busnesau / elusennau sydd â gwerth ardrethol, gan fod ein hadeiladau yn gapeli dianghenraid; ond serch hyn, rydym wedi colli incwm sylweddol gan denantiaid, gweithgareddau gwirfoddolwyr a digwyddiadau codi arian. Bydd hyn yn broblem hefyd i'r capeli 'byw' yna sydd wedi arallgyfeirio drwy hybu defnydd cymunedol o'u hadeiladau; byddant hwythau hefyd wedi colli incwm sylweddol.
Mae'r Ymddiriedolaeth yn dibynnu ar gyllid craidd gan Cadw, ac felly ein pryder mawr ni yw parhad y cyllid hwn yn y dyfodol. Byddai unrhyw ostyngiad yn ein cymorth grant yn codi amheuaeth ynglŷn â dyfodol yr Ymddiriedolaeth – ac yn gosod ein stoc adeiladau ni mewn mwy o berygl byth.

**post@addoldaicymru.org** | (01656) 728400

**YMDDIRIEDOLAETH ADDOLDAI CYMRU**
CANOLFAN EGLWYS WESLEY, HEOL MAESTEG
TONDU, PENYBONT AR OGWR, CF32 9BT
www.addoldaicymru.org

**WELSH RELIGIOUS BUILDINGS TRUST**
WESLEY CHURCH CENTRE, MAESTEG ROAD
TONDU, BRIDGEND, CF32 9BT
www.welshchapels.org

Elusen Gofrestredig 1084030 | Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant 3870343
Cofrestrwyd yng Nghymru

Registered Charity 1084030 | Company Limited by Guarantee 3870343
Registered in Wales